

Cofnodion Bwrdd y Gorfforaeth
a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 23 Mawrth 2017 am 5.00pm ym Mhlas Sgeti, Sgeti

Presennol:	Mr Colin Cornelius	Cadeirydd
	Dr David Ashelby	
	Mr Tim Clark	
	Mr Ryan George	
	Mrs Carol Green	
	Mr Mark Jones	Pennaeth
	Mr Ceri Low	
	Mrs Chantal Patel	
	Ms Fiona Rees	
	Mr Gary Williams	
	Mrs Susan Williams	
	Mr Sam Williams	
Yn bresennol:	Mr Mike Glover	Pennaeth Cyllid
	Mr Paul Harris	Is-bennaeth (Gwasanaethau Corfforaethol)
	Mrs Kay Morgan	Is-bennaeth (Gwasanaethau Academaidd)
Cofnodydd:	Mrs Sharon Barron	Clerc y Gorfforaeth

28 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: Mr John Britton, Mr Mike Day, Mr Andrew Donald, Mr Meirion Howells, Y Cyngh. Jennifer Raynor, Y Cyngh. Christine Richards, Mr Kieron Rees a Mr Ray Singh.

29 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Chwefror eu **cymeradwyo** fel cofnod cywir.

30 Adroddiad y Pennaeth

Cyflwynodd y Pennaeth ei adroddiad.

Roedd y Bwrdd wedi nodi'r diweddariad i'r sector gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriadau cyfredol roedd y Coleg a/neu Golegau Cymru yn cyflwyno ymatebion arnynt, cyhoeddi Polisi Prentisiaeth newydd Llywodraeth Cymru a'r cynllun gweithredu 5 mlynedd, Safonau'r Gymraeg ar gyfer Addysg Bellach ac adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar 'Drosolwg Llywodraeth Cymru o gyllid a darpariaeth colegau addysg bellach'. Roedd yr olaf wedi cynnwys 7 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru. Roedd Aelodau wedi nodi cynigion i newid strwythur Colegau Cymru.

Roedd y Bwrdd wedi nodi bod Bargaen Ddinesig Bae Abertawe gwerth £1.3 biliwn bellach wedi cael ei llofnodi, ac roedd wedi nodi'r 11 o brosiectau sydd i'w cynnwys yn y rhaglen.

Roedd y Pennaeth wedi adrodd ar drafodaethau gydag Ysgol Gyfun Treforys (gweler

Cofnod 23) a'r rhaglenni sydd i'w darparu yn yr ysgol gan staff y Coleg, gydag aelodau'n ceisio sicrwydd am reoli ansawdd y ddarpariaeth, a nodi'r manteision o wneud y gwaith hwn i'r dysgwyr a'r Coleg; dyddiad cwblhau disgwylidig Adolygiad Addysg Ôl-16 sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan Gyngor Ddinas a Sir Abertawe; a cheisiadau am gyrsiau amser llawn yn dechrau ym mis Medi 2017. O ran dysgu seiliedig ar waith, roedd y Pennaeth wedi adrodd y bydd dyddiadau cau y rownd newydd o dendrau dysgu seiliedig ar waith yn debygol o gael eu gohirio, a bod y Coleg wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer mynediad i'r Gofrestr o Ddarparwyr Hyfforddiant Cymeradwy newydd i ddarparu prentisiaethau yn Lloegr ac roedd yn gweithio gyda'r Darparwyr Hyfforddiant Cymeradwy i ddatblygu strategaeth.

Roedd y Bwrdd wedi nodi diweddariad ar y gwaith ystadau yn Nhycloch i adfer yr adeiladau ar ôl y tân yn Hydref 2016, a'r cynnydd a wneir gyda'r gwaith o ddatblygu'r heol gyswllt, a phrosiectau blaen tŷ.

Roedd Aelodau wedi nodi'r datblygiadau rhyngwladol, yn enwedig y datblygiadau'n ymwneud ag ysgolion yn Tsieina. Roedd Aelodau wedi gwneud sylwadau ar reolaeth sicrhau ansawdd dysgu ac addysgu ac wedi trafod model y ddarpariaeth. O ran adeiladau ac ystafelloedd, roedd y Coleg yn ystyried nifer o ddewisiadau. Roedd y Bwrdd wedi **cymeradwyo**, mewn egwyddor, y gwaith o ddatblygu'r model o ddarpariaeth a gynigiwyd.

Ceisiwyd barn Aelodau am y cynnig i gyflwyno ceisiadau Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru am 4 prosiect ar wahân gwerth cymaint â £5.2m (dros 3 blynedd) gyda chyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop o tua £3.8m. Roedd y Bwrdd wedi **cytuno** i gefnogi'r ceisiadau.

Roedd y Bwrdd wedi nodi bod trafodaethau'n parhau â'r Adran Addysg a Sgiliau ynghylch y posibilrwydd o'r Coleg yn cynnig tri chwrs amser llawn newydd ym maes adeiladu ym mis Medi 2017.

Roedd y Pennaeth wedi adrodd ar yr Adroddiadau Deilliannau Dysgwyr ar gyfer y 13 coleg AB a pherfformiad perthnasol Coleg Gŵyr Abertawe. Roedd Aelodau wedi nodi'r cyfraddau llwyddo cyffredinol, a'r cyfraddau llwyddo ar gyfer prif gymwysterau.

Roedd y Bwrdd wedi ystyried y cynnig i sefydlu cangen o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn y Coleg ac wedi adolygu'r Cyfansoddiad a gafodd ei ddosbarthu. Trafodwyd y gwerth o gael corff ychwanegol i'r dysgwyr a'r Coleg i gynrychioli myfyrwyr ac a fyddai'n darparu dull arall at ddibenion ymgynghori a chydgyssylltu. Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd y gallai'r swyddog sabothol arfaethedig, y Llywydd, gynrychioli barn UCM y gangen i'r Bwrdd gan nodi bod y broses ar gyfer enwebu aelodau-myfyrwyr i'r Bwrdd ar gyfer 2017-18 yn mynd yn ei blaen ar hyn o bryd.

Roedd y cynnig wedi cael ei gefnogi gan y Pwyllgor Cymorth Dysgwyr (Gweler Cofnod 18) a'i gefnogi gan y Bwrdd. Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **cymeradwyo**r Cyfansoddiad ar gyfer cangen y Coleg o Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **nodi** adroddiad y Pennaeth.

31 Rhagolwg Canol y Flwyddyn

Roedd y Bwrdd wedi cael y gyllideb wedi'i diweddaru ar gyfer 2016-17 a adolygwyd gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ac a argymhellwyd i'r Bwrdd (gweler Cofnod 37). Byddai hon wedi cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru (Rhagolwg Canol y Flwyddyn).

Roedd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol wedi nodi'r canlynol yn benodol: cynnydd yn y diffyg disgwylidig ar gyfer y flwyddyn oherwydd symudiad mewn eitemau eithriadol ac eitemau nad ydynt yn arian parod; dyfodol ansicr incwm Ewropeaidd, a'r cynigion sy'n cael eu gwahodd ar hyn o bryd ar gyfer prosiectau Ewropeaidd i sicrhau'r defnydd o'r arian presennol o Ewrop.

Roedd y Bwrdd wedi nodi bod y Pwyllgor Cyllid yn fodlon bod y Coleg yn parhau i fod mewn iechyd ariannol da.

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **cymeradwyo** rhagolwg canol y flwyddyn ar gyfer y cyfnod yn gorffen 31 Gorffennaf 17 a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

32 Cyfrifon Rheoli ar gyfer y Cyfnod yn gorffen 31 Ionawr 2017

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi derbyn a nodi'r cyfrifon rheoli ar gyfer y cyfnod yn gorffen 31 Ionawr 2017 a gafodd eu hargymhell i'w cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (Gweler Cofnod 36).

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **cymeradwyo'r** cyfrifon rheoli ar gyfer y cyfnod yn gorffen 31 Ionawr 2017.

33 Adroddiadau Pwyllgor

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **nodi** a thrafod amrywiol eitemau a ystyriwyd gan y pwyllgorau canlynol ac wedi **cymeradwyo'r** penderfyniadau a wnaed.

.1 Bwrdd Cyfarwyddwyr Track Training 6 Chwefror 2017 a 13 Mawrth 2017.

Roedd y Bwrdd wedi nodi bod archwilwyr mewnol ac allanol wedi ymweld â Track Training a bod y cwmni yn rhoi sylw i'r argymhellion a wnaed.

.2 Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd 28 Chwefror 2017

.3 Pwyllgor Cymorth Dysgwyr 7 Mawrth 2017

.4 Pwyllgor Archwilio 9 Mawrth 2017

.5 Pwyllgor Adnoddau Dynol 13 Mawrth 2017

.6 Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol 16 Mawrth 2017

Roedd Bwrdd y Gorfforaeth wedi **cymeradwyo** Prosiect Ffreutur Campws Gorseionon am gost o tua £1m gan gynnwys TAW (Cofnod 39), wedi **cymeradwyo'r** newidiadau i'r Strategaeth Ariannol fel y nodwyd yn y cofnodion a'r adroddiad cysylltiedig; wedi **cymeradwyo'r** Cyfrifon Rheoli am y cyfnod yn gorffen 31 Ionawr 2017 (Eitem 24

uchod), ac wedi **cymeradwyo** rhagolwg canol y flwyddyn 2016-17 (Eitem 23 uchod). Mewn perthynas â'r Strategaeth Ariannol, roedd Aelodau wedi nodi, ym marn bersonol Andrew Clark (Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau Llywodraeth Cymru) y dylai'r targed sector ar gyfer EBITDA fod yn 5% ond 'na fyddai'n pryderu' ar yr amod bod y ffigwr yn uwch na 3%.

34 Dyddiadau y cyfarfodydd nesaf

Cynhelir y cyfarfodydd nesaf ar 11 Mai 2017 a 29 Mehefin 2017.

Llofnodwyd.....

Dyddiad.....